



Beth yw Cychwyn Eto?

Cwrs llythrennedd sylfaenol ar gyfer disgyblion sy'n cael anawsterau gyda datblygu sgiliau llythrennedd yw 'Cychwyn Eto'. Mae'r cwrs yn atgyfnerthu sŵn llythrennau a datblygu ymwybyddiaeth ffonetig.

Gellir defnyddio'r cwrs gydag unigolyn neu grŵp bach. Mae'r pecyn wedi ei lunio ar gyfer ei ddefnyddio gan athrawon neu gymhorthyddion dosbarth.

Cychwyn Eto



Llyfrau Gwaith Cychwyn Eto

Llyfr 1

- adnabod a ffurfio llythrennau sengl
- adeiladu geiriau c-ll-c
- adnabod a sillafu geiriau aml uchel (Rhestr 1-4 o'r pecyn 'Beth alla i wneud?')
- darllen ac ysgrifennu brawddegau syml yn annibynnol.

Llyfr 2

- adnabod a ffurfio llythrennau dwbl
- adeiladu geiriau c-c-ll-c
- Adnabod a sillafu geiriau aml uchel (Rhestr 4- 10 o'r pecyn 'Beth alla i wneud?')
- darllen ac ysgrifennu brawddegau syml yn annibynnol.

Llyfrau Darllen Cychwyn Eto

Mae llyfrau darllen strwythuredig 'Cychwyn Eto' yn seiliedig ar y cwrs llythrennedd sylfaenol 'Cychwyn Eto'.

Pwrpas y gyfres yw cynorthwyo disgyblion cynradd i wella eu sgiliau llythrennedd.

Mae'r ugain llyfr wedi eu rhifo a dylid eu darllen yn eu trefn i sicrhau strwythur cynnyddol.